

Cynnig i uno Ysgol Gynradd Cefn ac Ysgol Gynradd Craig yr Hesg

Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Mae'r offeryn hwn, sy'n hwyluso rhoi Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg, yn galluogi'r Cyngor i ystyried egwyddorion a gofynion Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 i sicrhau cydymffurfio â Mesur y Gymraeg 2011.

Dylid ei ddarllen ochr yn ochr â'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, gan fod y wybodaeth yn y ddwy ddogfen yn gysylltiedig, a'r themâu oddi mewn iddynt yn drawsbynciol.

CAM 1 – Casglu Gwybodaeth

SYLWER: Wrth i chi gwblhau'r offeryn hwn, gofynnir i chi am **dystiolaeth i gefnogi'ch barn**. Gweler y ddogfen ganllawiau i gael mwy o wybodaeth am ffynonellau data.

Enw'r Cynnig	Uno Ysgol Gynradd Cefn ac Ysgol Gynradd Craig yr Hesg
Cyfarwyddiaeth / Adran	Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant – Tîm Ysgolion yr 21 ^{ain} Ganrif
Cyfarwyddwr Gwasanaethau	Andrea Richards
Swyddog sy'n Cwblhau'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg	Nicola Goodman
E-bost	nicola.goodman@rctcbc.gov.uk
Disgrifiad Bras	Mae'r cynnig ynglŷn ag uno Ysgol Gynradd Cefn (CPS) ac Ysgol Gynradd Craig yr Hesg (CYHPS). Bydd yr uno yn digwydd trwy gau'r ddwy ysgol gynradd bresennol, sydd mewn cyflwr gwael, ac adeiladu ysgol gynradd gymunedol fawr, newydd, yn eu lle ar safle presennol Ysgol Gynradd Craig yr Hesg, a'r tir cyfagos (hen safle Uned Cyfeirio Disgyblion Tŷ Gwyn). Bydd yr ysgol newydd yn elwa ar gyfleusterau'r 21^{ain} Ganrif ac yn darparu amgylchedd dysgu gwell ac estynedig ar gyfer disgyblion a staff. Bydd y dalgylch ar gyfer yr ysgol newydd yn uno'r dalgylchoedd ar gyfer yr ysgolion presennol. Bydd yr ysgol newydd yn cael ei hariannu gan y Cyngor, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru (LIC), trwy ffrwd cyllid refeniw Model Buddsoddi Cydfuddiannol y Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21^{ain} Ganrif. Bydd y cyfleusterau newydd yn cynnwys: • Amgylchedd dysgu modern a hyblyg ar gyfer yr holl ddysgwyr, neuadd / ardal fwyta fawr, ardal adnoddau dysgu amlbwrpas a chyfleusterau cwbl hygyrch. • Ardaloedd mewnol ac allanol i'w defnyddio gan y gymuned leol. • Gofodau awyr agored estynedig i gefnogi ystod lawn gweithgareddau'r cwricwlwm, yn cynnwys ystafell ddosbarth yn yr awyr agored ac ardal 'ysgol goedwig'. • Mannau parcio gwell ar y safle ar gyfer staff ac ymwelwyr. Bydd y cynnig hefyd yn cynnwys adolygiad o lwybrau diogel i'r ysgol, a buddsoddi mewn gwelliannau i rodfeydd, manau croesi ar ffyrdd a mesurau tawelu traffig, os oes angen, i sicrhau bod y safonau diogelwch gofynnol yn cael eu bodloni. Dyma'r dull rydym wedi'i roi ar waith mewn cymunedau eraill trwy gyflwyno Rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif, y gwnaethpwyd gwelliannau sylweddol yn ei sgil.

	Bydd yr ysgol newydd yn cael ei hadeiladu yn unol â Bwletin Adeiladu 99, a bydd yn gwbl hygyrch ac yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010.
Dyddiad	24 Tachwedd 2021
Amlinelliad o'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan y cynnig hwn	• Disgyblion a staff Ysgol Gynradd Cefn ac Ysgol Gynradd Craig yr Hesg. • Rhieni / gofalmwr disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Cefn ac Ysgol Gynradd Craig yr Hesg. • Trigolion a chymunedau yng nghyffiniau Ysgol Gynradd Cefn ac Ysgol Gynradd Craig yr Hesg.
Beth yw nodau'r polisi / prosiect, a sut mae'r rhain yn ymwneud â'r Gymraeg?	Mae'r rhaniad presennol mewn darpariaeth addysg gynradd cyfrwng Saesneg yng Nglyn-coch rhwng dwy ysgol ffederal mewn cyflwr gwael iawn, wedi eu lleoli dim ond 0.6 milltir ar wahân, yn anghynaliadwy. Mae amcanestyniadau niferoedd y disgyblion yn dystiolaeth o hyn, sy'n dangos bod gan Ysgol Gynradd Cefn ganran sylweddol o leoedd dros ben (34.8%) erbyn blwyddyn academiaidd 2025/26. I'r gwrthwyneb, amcenir y bydd Ysgol Gynradd Craig yr Hesg yn mynd y tu hwnt i'w chapasiti presennol, sef 150 o leoedd disgyblion, yn gyson o flwyddyn academiaidd 2021/22 ymlaen. Mae hyn yn dangos nad yw'r ysgolion yn addas ar wahân, ac yn cefnogi'r achos i adeiladu ar y gwaith cadarnhaol a wnaed hyd yma gan y ffedereiddio, a'u disodli ag un ysgol gynradd, sy'n hyfyw yn addysgol, o faint priodol. Er y bydd yr ysgol newydd yn un cyfrwng Saesneg, caiff y Gymraeg ei haddysgu fel rhan o'r cwricwlwm, a bydd pob un o'r disgyblion yn elwa ar gyfle i gael eu haddysgu mewn cyfleusterau newydd sbon sy'n addas ar gyfer yr 21^{ain} Ganrif. Y nod fu ymgorffori arferion ac agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg trwy gynllunio pwrpasol mewn ysgolion, a hyrwyddo defnydd anffurfiol o'r Gymraeg ymhlith dysgwyr y tu mewn a'r tu allan i'r ysgol. Mae hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm ac mewn cyd-destunau ehangach mewn ysgolion, i sicrhau continwwm dilyniant ieithyddol i gefnogi dysgwyr yn y cyfnod pontio rhwng cyfnodau allweddol, yn cynnig cyfle i'r holl ddysgwyr fod yn gwbl ddwyieithog, ac mae'n gydnaws â'r Cwricwlwm i Gymru – 2022. Ar hyn o bryd, mae'r ddwy ysgol bresennol yn cefnogi'r nod hwn trwy ddefnyddio'r Gymraeg yn achlysurol ble bynnag y bo modd, a defnyddio mentrau fel 'Helpwr Heddiw', 'Seren yr Wythnos' a 'Criw Cymraeg'. Bydd yr ysgol newydd yn parhau i wneud hynny a bydd yn adeiladu ar hyn trwy ymrwymo i gyflawni Siarter Iaith 'Cymraeg Campus', sef fframwaith i hyrwyddo a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ar draws yr ysgol. Os caiff ei weithredu, bydd y cynnig hefyd yn caniatáu ar gyfer ehangu defnydd y gymuned a thrydydd partïon o gyfleusterau'r ysgol y gellir eu defnyddio i gynnal dosbarthiadau trwy gyfrwng y Gymraeg. Enghraifft o hyn yw Ysgol Gymuned Tonyrefail, ble caiff dosbarthiadau Cymraeg gyda'r nos eu cynnal yn y cyfleusterau i'r gymuned. Bydd yr ysgol yn cael ei dylunio i fod yn ysgol gymunedol gwbl hygyrch a chwbl integredig. Bydd ardal ddynodedig yn cael ei dylunio o fewn yr ysgol er mwyn caniatáu i'r gymuned leol ddefnyddio'r cyfleusterau yn yr ysgol yn ddiogel, a allai gynnwys grwpiau Cymraeg yn defnyddio cyfleusterau'r 21^{ain} ar gyfer cyfarfodydd / dosbarthiadau, ac ati.
Pwy fydd yn elwa? A allai'r polisi / prosiect effeithio ar grwpiau Cymraeg?	• Disgyblion Ysgol Gynradd Cefn ac Ysgol Gynradd Craig yr Hesg. • Rhieni / gofalmwr disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Cefn ac Ysgol Gynradd Craig yr Hesg. • Staff academiaidd a staff cymorth yn Ysgol Gynradd Cefn ac Ysgol Gynradd Craig yr Hesg. • Y gymuned leol yng Nglyn-coch.

	Dylai unrhyw effaith ar y Gymraeg fod yn gadarnhaol yn unig, gan y bydd yr adeilad newydd yn hygyrch i'r gymuned leol, a allai gynnwys grwpiau Cymraeg yn defnyddio cyfleusterau'r 21^{ain} ar gyfer cyfarfodydd / dosbarthiadau, ac ati. Er nad yw'n rhan o'r cynnig hwn, mae'r Cyngor hefyd yn gweithio i wella a chynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ardal Taf-elái trwy adeiladu ysgol bwrpasol newydd i ddisodli darpariaeth Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton a ffrwd Gymraeg Ysgol Gynradd Heol y Celyn (ysgol dwy iaith ar hyn o bryd) ar safle presennol Ysgol Gynradd Heol y Celyn yn Rhydfelen, Pontypridd. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor wrthi'n bwrw ymlaen â'r broses achos busnes gyda Llywodraeth Cymru, er mwyn sicrhau cyllid ar gyfer y buddsoddiad hwn. Y gobaith yw y bydd yr ysgol newydd, a fydd yn cynnwys 480 o leoedd a 60 o leoedd yn y feithrin, yn agor ym mis Medi 2024 ac yn cynnig addysg cyfrwng Cymraeg mewn amgylchedd dysgu sy'n addas i'r 21^{ain} Ganrif.																																
Proffil ieithyddol presennol yr ardal ddaearyddol / ardaloedd daearyddol dan sylw	Bob deng mlynedd, mae'r genedl yn neilltuo un diwrnod ar gyfer y Cyfrifiad – sef cyrifrif o'r holl bobl ac aelwydydd. Mae'r Cyfrifiad yn ffynhonnell wybodaeth allweddol am nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg. Dangosodd Cyfrifiad 2011¹ fod 225,555 o drigolion yn byw ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf; roedd 12.3% (27,779) yn gallu siarad Cymraeg, ac nid oedd y 87.6% sy'n weddill (197,776) yn gallu siarad Cymraeg. Gellir cymharu hyn â ffigurau Cymru gyfan a ddangosodd, o'r 2,955,841 o drigolion sy'n byw yng Nghymru, fod 19.0% (562,016) yn gallu siarad Cymraeg, ac nid oedd yr 81.0% sy'n weddill (2,393,825) yn gallu siarad Cymraeg. Mae'r tabl sy'n dilyn yn dangos sgiliau Cymraeg trigolion sy'n byw yn adran etholiadol Glyn-coch, ac ym Mwrdeistref Sirol ehangach Rhondda Cynon Taf, ac fe'i cafwyd o Gyfrifiad 2011. <table><tr><th></th><th>Glyn-coch</th><th>Rhondda Cynon Taf</th><th>Cymru Gyfan</th></tr><tr><td>Yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg</td><td>9.4%</td><td>9.7%</td><td>14.6%</td></tr><tr><td>Yn gallu siarad a darllen ond ddim yn gallu ysgrifennu Cymraeg</td><td>0.6%</td><td>0.9%</td><td>1.5%</td></tr><tr><td>Yn gallu siarad ond ddim yn gallu darllen nac ysgrifennu Cymraeg</td><td>1.7%</td><td>1.6%</td><td>2.7%</td></tr><tr><td>Yn gallu deall Cymraeg llafar yn unig</td><td>2.5%</td><td>4.2%</td><td>5.3%</td></tr><tr><td>Cyfuniad arall o sgiliau</td><td>1.9%</td><td>3.3%</td><td>2.5%</td></tr><tr><td>Dim sgiliau</td><td>84.0%</td><td>80.4%</td><td>73.3%</td></tr><tr><td>Cyfanswm</td><td>100.0%</td><td>100.0%</td><td>100.0%</td></tr></table>		Glyn-coch	Rhondda Cynon Taf	Cymru Gyfan	Yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg	9.4%	9.7%	14.6%	Yn gallu siarad a darllen ond ddim yn gallu ysgrifennu Cymraeg	0.6%	0.9%	1.5%	Yn gallu siarad ond ddim yn gallu darllen nac ysgrifennu Cymraeg	1.7%	1.6%	2.7%	Yn gallu deall Cymraeg llafar yn unig	2.5%	4.2%	5.3%	Cyfuniad arall o sgiliau	1.9%	3.3%	2.5%	Dim sgiliau	84.0%	80.4%	73.3%	Cyfanswm	100.0%	100.0%	100.0%
	Glyn-coch	Rhondda Cynon Taf	Cymru Gyfan																														
Yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg	9.4%	9.7%	14.6%																														
Yn gallu siarad a darllen ond ddim yn gallu ysgrifennu Cymraeg	0.6%	0.9%	1.5%																														
Yn gallu siarad ond ddim yn gallu darllen nac ysgrifennu Cymraeg	1.7%	1.6%	2.7%																														
Yn gallu deall Cymraeg llafar yn unig	2.5%	4.2%	5.3%																														
Cyfuniad arall o sgiliau	1.9%	3.3%	2.5%																														
Dim sgiliau	84.0%	80.4%	73.3%																														
Cyfanswm	100.0%	100.0%	100.0%																														

¹ [Cyfrifiad 2011](#)

Mae'r data yn dangos bod sgiliau Cymraeg trigolion yn adran etholiadol Glyn-coch ychydig islaw lefel gyffredinol y Fwrdeistref Sirol, ar y cyfan, ac islaw lefel sgiliau Cymraeg Cymru Gyfan.

Bydd yr ysgol newydd yn cynnwys cyfleusterau i'w defnyddio gan aelodau o'r gymuned leol a gallai gynnwys darparu dosbarthiadau dysgu Cymraeg i oedolion er mwyn helpu i gefnogi twf sgiliau Cymraeg yn y pentref. Ar ben hynny, bydd ysgol gynradd Gymraeg newydd arfaethedig y Cyngor ar safle presennol Ysgol Gynradd Heol y Celyn yn cynyddu capasiti addysg gynradd Gymraeg yn ardal Taf-elái, gan gefnogi twf sgiliau Cymraeg ymhellach.

Mae'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth² yn casglu gwybodaeth am allu ymatebwyr i siarad Cymraeg, ac yn cynnwys cwestiwn ar ba mor aml y mae pobl yn siarad Cymraeg. Caiff ei ddiweddarau bob chwarter, felly mae'n ffynhonnell fwy diweddar na'r Cyfrifiad. Yn ôl yr Arolwg Blynyddol diweddaraf o'r Boblogaeth, ar gyfer y flwyddyn yn gorffen ym mis Mehefin 2021, dywedodd 21.1% o ymatebwyr sy'n byw ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf eu bod yn gallu siarad Cymraeg, o gymharu â chanran Cymru gyfan, sef 29.2% o ymatebwyr. Gellir dadansoddi hyn ymhellach yn ôl y data sydd wedi'i gynnwys yn y tabl sy'n dilyn.

Sgiliau Cymraeg Trigolion – (%)		
	Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	Cymru
Yn gallu darllen Cymraeg	19.6%	25.9%
Yn gallu ysgrifennu Cymraeg	18.1%	23.7%
Yn gallu deall Cymraeg llafar	24.1%	33.6%

Mae'r data yn dangos, ym mhob maes sgiliau Cymraeg, bod canrannau 'Cymru gyfan' gryn dipyn yn uwch na chanrannau'r Fwrdeistref Sirol. Fodd bynnag, mae'r data presennol yn dangos cynnydd sylweddol yn nifer y trigolion sy'n gallu darllen, ysgrifennu, a deall Cymraeg llafar ers y cyfrifiad diwethaf yn 2011.

Pan ofynnwyd iddyn nhw pa mor aml maen nhw'n siarad Cymraeg, mae'r tabl sy'n dilyn yn dangos dadansoddiad o ymatebion gan ymatebwyr sy'n byw ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf o gymharu ag ymatebion Cymru gyfan.

Sgiliau Cymraeg Trigolion – (%)		
	Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	Cymru
Yn siarad Cymraeg bob dydd	8.1%	15.4%
Yn siarad Cymraeg bob wythnos	5.0%	5.0%
Yn defnyddio'r Gymraeg yn llai aml, neu fyth	5.6%	8.7%

Mae'r data'n dangos bod canran yr ymatebwyr sy'n siarad Cymraeg bob dydd yn is

² [Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth](#)

o lawer ar gyfer y Fwrdeistref Sirol na chanran Cymru gyfan.

Mae'r Arolwg Defnydd Iaith³ ar gyfer y blynyddoedd 2013 i 2015, yn cynnwys gwybodaeth fanwl am ruglder siaradwyr Cymraeg a'u defnydd o'r Gymraeg mewn ystod o leoliadau. Wrth edrych ar ble wnaeth ymatebwyr sy'n byw yng Nghymru ddysgu siarad Cymraeg, dysgodd y mwyafrif ohonynt, sef 45.0%, siarad Cymraeg gartref, wedi'i ddilyn gan 26.0% a ddysgodd siarad Cymraeg yn yr ysgol feithrin a'r ysgol gynradd rhwng 2 a 10 oed, ac 14.0% a ddysgodd siarad Cymraeg yn yr ysgol uwchradd pan oeddent yn 11 oed, ac yn hŷn. Dysgodd y 2.0% sy'n weddill siarad Cymraeg mewn lleoliadau eraill, yn cynnwys ar gyrsiau 'Cymraeg i Oedolion'.

Bydd yr adeilad ysgol newydd arfaethedig ar gyfer yr ysgol gynradd newydd yng Nglyn-coch yn caniatáu ar gyfer ehangu defnydd cymunedol a thrydydd partïon o gyfleusterau'r ysgol. Bydd yr ysgol yn cael ei dylunio i fod yn ysgol gymunedol gwbl hygyrch a chwbl integredig. Bydd ardal ddynodedig yn cael ei dylunio o fewn yr ysgol ei hun er mwyn caniatáu i'r gymuned leol ddefnyddio'r cyfleusterau yn yr ysgol yn ddiogel.

Mae'r data uchod yn dangos yn glir fod bwlch yn sgiliau Cymraeg trigolion Rhondda Cynon Taf o gymharu â Chymru gyfan. Mae cynigion fel hyn yn gwella'r amgylchedd dysgu a'r cyfleoedd sydd ar gael i'n dysgwyr yn sylweddol. Bydd pennaeth yr ysgol newydd yn cael ei annog a'i gynorthwyo i ystyried defnyddio'r cyfleusterau hyn i gynyddu cyfranogiad yn y Gymraeg trwy gynnig cyfle i rieni / gofawyr ac aelodau eraill o'r gymuned fynychu dosbarthiadau Cymraeg a / neu gyfleoedd eraill ar gyfer ymgysylltiad y gymuned trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae cefnogaeth wedi'i rhoi i hyrwyddo a chynyddu defnydd disgyblion o'r Gymraeg mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ac mewn cyd-destunau cymdeithasol. Cafodd hyn ei wneud trwy'r Siarter Iaith, a gafodd ei datblygu gan Gyngor Gwynedd, ac amryw o brosiectau eraill, ar y cyd â'r Consortïwm a'r Urdd. Bydd hyn yn cefnogi targed Llywodraeth Cymru i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050, a'r targedau a amlinellir yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg presennol (2017 i 2022) a newydd (2022 i 2032) y Cyngor.

Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd trochi yn y Gymraeg ar gyfer dysgwyr sy'n dymuno trosglwyddo o addysg cyfrwng Saesneg i addysg cyfrwng Cymraeg, i annog mwy o ddysgwyr i gael addysg cyfrwng Cymraeg. Er nad oes gan y Cyngor unrhyw ddosbarthiadau trochi yn y Gymraeg ar gyfer hwyrdyfodiaid mewn unrhyw un o'n hysgolion ar hyn o bryd, caiff ysgolion sydd angen cymorth trochi yn Gymraeg ar gyfer dysgwyr sy'n hwyrdyfodiaid eu hariannu i gefnogi caffael sgiliau Cymraeg dysgwyr yn gyflymach yn unol â'r angen. O'r herwydd, rhoddir cyllid yn uniongyrchol i ysgolion cyfrwng Cymraeg i sicrhau bod unrhyw hwyrdyfodiaid i addysg cyfrwng Cymraeg yn cael y cymorth a'r sgiliau angenrheidiol i'w galluogi i ffynnu yn eu hysgol.

Ystyrir bod hyn yn gweithio'n effeithiol. Fodd bynnag, o ystyried bod llawer o ALLau yn gweithredu modelau amrywiol o ddosbarthiadau trochi yn y Gymraeg i gynorthwyo dysgwyr sy'n hwyrdyfodiaid i addysg cyfrwng Cymraeg, gallai gwaith gyda LIC, Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortïwm Canolbarth y De a chonsortia addysg rhanbarthol eraill fod yn fuddiol wrth ddeall pa gyfleoedd ar gyfer cydweithio y gellid eu cael i sicrhau bod plant a phobl ifanc sy'n hwyrdyfodiaid i addysg

³ [Arolwg Defnydd Iaith 2013 i 2015](#)

	cyfrwng Cymraeg yn cael eu cynorthwyo'n ddigonol. Pan fydd galw amdano, bydd y Cyngor yn ystyried creu dosbarth trochi yn y Gymraeg ar gyfer hwyrddyfodiaid ochr yn ochr â datblygu ei Raglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21^{ain} Band B.
Data neu waith ymchwil arall perthnasol	Categori a safonau iaith ysgolion amgen / cyfagos Mae un deg saith ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg wedi'u lleoli ar draws Cyngor Bwrdeistref RhCT i hwyluso mynediad. Mae dwy ysgol pob oed ar gyfer dysgwyr rhwng 3 ac 19 mlwydd oed, sef Ysgol Garth Olwg ac Ysgol Llanhari, tair ysgol gynradd dwy iaith ar gyfer plant rhwng 3 ac 11 mlwydd oed, sef Ysgol Gynradd Dolau, Ysgol Gynradd Heol y Celyn ac Ysgol Gynradd Perthcelyn, a 12 ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant rhwng 3 ac 11 mlwydd oed. Mae pob dysgwr sy'n mynychu'r ysgolion hyn yn astudio trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ardal Taf yn Rhondda Cynon Taf, mae naw ysgol yn cynnig addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 11 mlwydd oed, sy'n cynnwys: ysgolion pob oed rhwng 3 ac 19 mlwydd oed, ysgolion cynradd dwy iaith ac ysgolion cynradd sy'n darparu ar gyfer plant rhwng 3 ac 11 mlwydd oed. Yn unol â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg presennol y Fwrdeistref Sirol, ac er mwyn cyflawni targedau'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg newydd, bydd y Fwrdeistref Sirol yn parhau i sicrhau bod manteision addysg cyfrwng Cymraeg a Chymraeg yn cael eu hyrwyddo ymhlith rhieni / gofawyr o'r blynyddoedd cynnar cychwynnol, trwodd i addysg gynradd ac uwchradd, wedyn symud ymlaen i addysg uwch ac addysg bellach ar gyfer yr holl ddysgwyr, beth bynnag fo'u hangen dysgu. Yn ychwanegol, bydd pennaeth yr ysgol newydd yn hyrwyddo a chyfeirio at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ardal. Mae Ysgol Gynradd Cefn ac Ysgol Gynradd Craig yr Hesg wedi'u lleoli tua 2.2 filltir ac 1.6 milltir, yn y drefn honno, o Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton yng Nghilfynydd; ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg y dalgylch ar hyn o bryd ar gyfer teuluoedd sy'n byw yng Nglyn-coch. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn gobeithio gwella a chynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ardal Taf trwy adeiladu ysgol newydd bwrpasol i ddisodli darpariaeth YGG Pont Siôn Norton a ffrwd cyfrwng Cymraeg Ysgol Gynradd Heol y Celyn (ysgol dwy iaith ar hyn o bryd), ar safle presennol Ysgol Gynradd Heol y Celyn yn Rhydyfelin, Pontypridd. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor wrthi'n symud trwy broses yr achos busnes gyda Llywodraeth Cymru, er mwyn sicrhau cyllid ar gyfer y buddsoddiad hwn. Y gobaith yw y bydd yr ysgol newydd, i gynnwys 480 o leoedd a 60 o leoedd meithrin, yn agor ym mis Medi 2024 ac yn cynnig addysg cyfrwng Cymraeg mewn amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf yn yr 21^{ain} Ganrif. Tra bydd yr ysgol gynradd Gymraeg newydd yn fwy pell o Ysgol Gynradd Cefn ac Ysgol Gynradd Craig-yr-Hesg, bydd pob plentyn sydd ar hyn o bryd yn gymwys i gael cludiant o'r cartref i'r ysgol er mwyn manteisio ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton yn parhau i fod yn gymwys pan fydd yr ysgol newydd yn agor. Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd trochi yn y Gymraeg ar gyfer dysgwyr sy'n dymuno trosglwyddo o addysg cyfrwng Saesneg i addysg cyfrwng Cymraeg, er mwyn annog mwy o ddysgwyr i gael addysg cyfrwng Cymraeg. Er nad oes gan y Cyngor unrhyw ddosbarthiadau trochi yn y Gymraeg yn unrhyw un o'n hysgolion ar hyn o bryd, caiff ysgolion sydd angen cymorth â throchi yn y Gymraeg ar gyfer eu dysgwyr eu hariannu i gefnogi caffael sgiliau Cymraeg yn gyflymach pan fydd yr angen yn codi.

Niferoedd y disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg cyfagos

Mae gan ysgolion cyfrwng Cymraeg cyfagos gapasiti dros ben i hwyluso twf darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol, fel y dangosir yn y tabl isod.

Ysgol	Capasiti (4-11 oed)	Nifer ar y Gofrestr	Capasiti dros ben
YGG Pont Siôn Norton	267	235	11.99%
YGG Evan James	342	248	27.49%

Mae'r lleoedd dros ben hyn hefyd yn amlwg ar lefel meithrin a derbyn yn yr ysgolion (gweler y tabl isod), sydd felly'n galluogi darpariaeth y blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg.

Ysgol	Nifer Derbyn	Meithrin rhan- amser	Meithrin	Derbyn
YGG Pont Siôn Norton	38	0	34	28
YGG Evan James	48	16	22	44

Caiff y galw ac amcanestyniadau eu monitro'n rheolaidd ar draws pob ysgol fel rhan o gynllunio trefniadaeth barhaus ysgolion, i sicrhau bod safle pob ysgol yn ddigonol i fodloni'r galw yn y dalgylch, a galluogi twf y Gymraeg.

Yn ychwanegol, ac fel y nodwyd uchod, mae'r Cyngor yn gobeithio gwella a chynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ardal Taf trwy adeiladu ysgol newydd bwrpasol i ddisodli darpariaeth YGG Pont Siôn Norton a ffrwd cyfrwng Cymraeg Ysgol Gynradd Heol y Celyn (ysgol dwy iaith ar hyn o bryd), ar safle presennol Ysgol Gynradd Heol y Celyn yn Rhydyfelin, Pontypridd. Yn amodol ar gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru, bwriedir y bydd yr ysgol newydd, i gynnwys 480 o leoedd a 60 o leoedd meithrin, yn agor ym mis Medi 2024. Bydd hyn yn gynydd sylweddol yn nifer y lleoedd sydd ar gael, a bydd yn galluogi disgyblion i gael addysg cyfrwng Cymraeg mewn amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf yn yr 21^{ain} Ganrif.

Cyfraddau pontio o leoliadau Mudiad Meithrin i ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg

Y Cylch Meithrin agosaf at bentref Glyn-coch yw Cylch Meithrin Ynys-y-bŵl, sydd tua dwy filltir i ffwrdd. Dangosir y sefyllfa yn 2019/2020 o ran dilyniant o Gylch Meithrin Ynys-y-bŵl i ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn y tabl sy'n dilyn:

	Cylch Meithrin Ynys-y-bŵl
Capasiti Cylch Meithrin	24
Ysgol gynradd gysylltiedig	Pont Siôn Norton
Nifer y plant dwy flwydd oed (oedran ar 31.08.19)	15
Nifer y plant tair blwydd oed (oedran ar 31.08.19)	4

Nifer sy'n mynychu Cylch Ti a Fi			14
Nifer sy'n mynychu Dechrau'n Deg			0
Cyfanswm sy'n trosglwyddo i'r ysgol	Cyfrwng Cymraeg	Nifer	7
		%	43.75%
	Cyfrwng Saesneg	Nifer	9
		%	56.25%

(Sylwer: disgwylir y data diweddaraf gan Lywodraeth Cymru)

Mae Cymraeg 2050 yn amlinellu mai addysg drochi cyfrwng Cymraeg yw'r prif ddull ar gyfer sicrhau bod plant yn gallu datblygu eu sgiliau Cymraeg ac ar gyfer creu siaradwyr Cymraeg newydd. Mae Cymraeg 2050 yn amlygu pwysigrwydd sector y blynyddoedd cynnar fel pwynt mynediad cynnar i addysg cyfrwng Cymraeg, ac fel ffordd o gynyddu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg. I gefnogi hyn, mae'r Cyngor yn buddsoddi'n rheolaidd mewn cyfleusterau cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg ar safleoedd presennol ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg. Bydd cyllid i hyrwyddo creu dosbarthiadau trochi yn cynorthwyo continwwm y Gymraeg.

Yn ychwanegol, disgwylir y bydd darpariaeth newydd, sef Cylch Meithrin Cilfynydd a Phont Norton, yn agor ym mhentref cyfagos Cilfynydd ym mis Ionawr 2022. Dylai hyn helpu cynyddu'r nifer sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal hefyd.

Pa gyfleusterau sydd ar gyfer aelodau'r gymuned i ddysgu Cymraeg neu wneud gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg

Oherwydd capasiti adeilad yr ysgol newydd, bydd grwpiau a sefydliadau cymunedol yn gallu ei ddefnyddio. Mae'r adeilad yn cael ei ddylunio i hwyluso defnydd diogel o ardaloedd gan y gymuned tra'n cynnal gwahanu oddi wrth weddill yr ysgol. Bydd y pennaeth yn cael ei annog a'i gynorthwyo'n llawn i ddefnyddio'r cyfleusterau hyn i gynyddu cyfranogiad yn y Gymraeg trwy gynnig cyfle i rieni / gofalwyr ac aelodau eraill o'r gymuned fynychu dosbarthiadau Cymraeg a/neu gyfleoedd eraill ar gyfer ymgysylltiad y gymuned trwy gyfrwng y Gymraeg, fel sy wedi bod yn llwyddiannus mewn ysgolion newydd eraill. Bydd hyn yn cefnogi targed Llywodraeth Cymru i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050 a'r targedau a amlinellir yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg presennol (2017 i 2022) a newydd (2022 i 2032) y Cyngor.

A yw'n briodol darparu cyfleusterau ychwanegol ar ôl yr ysgol mewn unrhyw ysgol amgen i sicrhau safonau yn y Gymraeg ymhellach?

O ystyried lleoliad a hygyrchedd yr ysgol newydd, ynghyd â'i chyfleusterau cymunedol, byddai'r ysgol hon yn addas i gynnig cyfleusterau ar ôl yr ysgol sy'n hygyrch i aelodau'r gymuned trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, gan ddirymu'r angen i deithio i gyfleuster amgen.

Sut gellid cefnogi ymgysylltiad rhieni / gofalwyr a dysgwyr ag unrhyw ysgolion amgen ac unrhyw welliant iaith penodol y mae'n ei gynnig

Mae'r Cyngor wedi datblygu a diweddarau llyfryn Bod yn Ddwyieithog, wedi'i ariannu gan Gronfa Glyndŵr, a gyhoeddwyd yn gyntaf ym mis Mawrth 2016, ac mae wrthi'n cael ei ddiweddarau ar hyn o bryd. Mae'r llyfryn wedi'i gynllunio i roi gwybodaeth am fanteision bod yn ddwyieithog, amlinellu'r llwybr at addysg cyfrwng Cymraeg ac ateb

cwestiynau cyffredin ar ddewis addysg cyfrwng Cymraeg. Caiff y llyfryn ei ddosbarthu trwy ymwelwyr ieuchyd, darpariaeth Dechrau'n Deg, nyrsys meithrin a thrwy'r gymuned mewn meddygfeydd, llyfrgelloedd, deintyddfeydd ac ysbytai.

Mae 'Llyfryn Dechrau'r Ysgol' y Cyngor hefyd yn rhoi ystod o wybodaeth i rieni / gofalwyr, yn cynnwys cyngor ar ddewis ysgol, darparu cludiant o'r cartref i'r ysgol a chyfeirlyfr ysgolion.

Yn ychwanegol, mae'r Swyddog Cymraeg i Blant Lleol yn cynnal sesiynau dwyieithog wythnosol tylino babanod, ioga i fabanod ac amser odli Cymraeg ar gyfer rhieni / gofalwyr a phlant ifanc ar draws y Fwrdeistref Sirol gan weithio ochr yn ochr â'r Timau Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd Lleol. Mae hyn yn sicrhau bod rhieni / gofalwyr yn cael negeseuon cynnar allweddol yn ystod y cyfnod cynenedigol ac ôl-enedigol, ac yn cael gwybod am y llwybr dwyieithog sydd ar gael i'w plentyn. Mae darpariaeth leol Dechrau'n Deg, Gruffalo's Den, hefyd yn cynnig sesiynau dwyieithog.

Mae Gwasanaeth Ymgysylltiad a Chyfranogiad Ieuenctid y Cyngor yn gweithio gyda'r Fenter Iaith a'r Urdd i gyflwyno sesiynau ymwybyddiaeth iaith pwrpasol ar gyfer pobl ifanc, yn amlygu gwerth cael y Gymraeg fel sgil. Hefyd, mae'r Gwasanaeth Ymgysylltiad a Chyfranogiad Ieuenctid yn cyflwyno digwyddiadau a gweithgareddau cymdeithasol ar gyfer pobl ifanc trwy gyfrwng y Gymraeg, sy'n cynnwys cyfleoedd preswyl, eisteddfodau, chwaraeon ac achredu.

Gwybodaeth am sut mae'r cynnig yn cyd-fynd â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor ac unrhyw gamau gweithredu y bydd angen eu cymryd yn y dyfodol o ganlyniad i'r newid i barhau i gydymffurfio â'r cynllun neu fodloni targedau yn y cynllun

Mae'r Cyngor yn credu y dylai pob dysgwr gael cyfleoedd priodol ar gyfer dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg i'w galluogi i ddatblygu'r hyder i ddefnyddio'r ddwy iaith mewn bywyd bob dydd er mwyn bodloni gofynion yr 21^{ain} Ganrif.

Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd targed Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru a pha mor ganolog yw'r system addysg yng Nghymru i gyflawni ei weledigaeth. Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg newydd y Cyngor (2022 i 2032) yn amlinellu gweledigaeth ddeng mlynedd ar gyfer cynyddu a gwella cynllunio'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn y Fwrdeistref Sirol, er mwyn uchafu ei gyfraniad i gyflawni'r targed i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050. Mae'n adeiladu ar waith y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg blaenorol (2017 i 2022) ac yn amlinellu cynllun gweithredu sy'n dangos sut rydym yn bwriadu cyflawni ein gweledigaeth deng mlynedd.

Mae gan fwyafrif yr ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn y Fwrdeistref Sirol ddigon o leoedd dros ben i fodloni'r galw. Fodd bynnag, mae nifer o ysgolion lle mae'r galw yn agos at ragori ar y cyflenwad. O'r herwydd, mae'r Cyngor wedi gweithredu, neu wrthi'n gweithredu ar hyn o bryd, i fynd i'r afael â'r problemau hyn trwy nifer o brosiectau a chynigion. Dyma'r prosiectau sy'n cael eu cynnal i fynd i'r afael â'r mater hwn: ehangu Ysgol Gynradd Gymraeg Aberdâr, gan gynnwys cyfleuster gofal plant Cymraeg pwrpasol; ysgol gynradd Gymraeg newydd yn Rhydfelen ar gyfer disgyblion Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton a'r ffrwd Gymraeg yn Ysgol Gynradd Heol y Celyn; ehangu Ysgol Gyfun Rhydywaun drwy adeiladu bloc addysgu a chyfleusterau chwaraeon newydd; ac adeilad ysgol newydd i wasanaethu

datblygiad tai Llanilid, a fydd yn gweithredu'n estyniad i Ysgol Gynradd Dolau, sef ysgol dwy iaith, yn y lle cyntaf. Hefyd, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gynyddu ansawdd ac argaeledd darpariaeth cyfrwng Cymraeg y blynyddoedd cynnar trwy fuddsoddi'n sylweddol mewn nifer o ddarpariaethau trwy gynlluniau ariannu amrywiol, fel Grant Cyfalaf Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn cynorthwyo mewn sicrhau continwwm iaith o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ac yn sicrhau bod y galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei fodloni.

Ar ben hynny, fel y soniwyd yn gynharach, mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd trochi yn y Gymraeg ar gyfer dysgwyr sy'n dymuno trosglwyddo o addysg cyfrwng Saesneg i addysg cyfrwng Cymraeg, er mwyn annog mwy o ddysgwyr i gael addysg cyfrwng Cymraeg. Er nad oes gan y Cyngor unrhyw ddosbarthiadau trochi yn y Gymraeg mewn unrhyw un o'n hysgolion ar hyn o bryd, caiff ysgolion sydd angen cymorth trochi yn y Gymraeg ar gyfer eu dysgwyr eu hariannu i gefnogi caffael sgiliau Cymraeg yn gyflymach ar gyfer dysgwyr pan fydd yr angen yn codi. Yn ogystal â hyn, mae'r Cyngor wedi derbyn £100,000 gan Lywodraeth Cymru i sefydlu dosbarthiadau trochi peilot mewn 3 ysgol ledled y fwrdeistref sirol a fydd yn cefnogi disgyblion Cyfnod Allweddol 2 i drosglwyddo i addysg cyfrwng Cymraeg a darparu cefnogaeth ychwanegol i ddisgyblion sy'n dysgu'r Gymraeg lle bo angen. Sefydli'r dosbarthiadau peilot yn 2022.

Nid oes angen gwneud unrhyw newidiadau i'r cynigion hyn er mwyn cydymffurfio â'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Cam 2 – Asesiad Effaith

Yn yr adran hon, mae angen i chi ystyried y dystiolaeth ac unrhyw gamau rydych chi'n eu cymryd ar gyfer gwella. Mae hyn i sicrhau nad yw'r cyfleoedd ar gyfer pobl sy'n dewis byw eu bywydau a defnyddio gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg yn israddol i'r hyn a roddir i'r rheiny sy'n dewis gwneud hynny yn Saesneg, yn unol â gofyniad Mesur y Gymraeg 2011.

A fydd y camau arfaethedig yn effeithio ar unrhyw un o'r canlynol, neu bob un ohonynt?

	Byddan	Na fyddan	Dim effaith / Dibwys	Disgrifiwch pam y bydd yn cael effaith gadarnhaol / negyddol neu ddibwys ar y Gymraeg.	Pa dystiolaeth sydd gennych i gefnogi'r farn hon?	Pa gamau allwch chi eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol?
Niferoedd a/neu ganrannau'r siaradwyr Cymraeg	X			Bydd pennaeth yr ysgol newydd yn cael ei annog a'i gefnogi i ystyried defnyddio'r cyfleoeddau i gynyddu cyfranogiad yn y Gymraeg trwy gynnig cyfle i rieni / gofalwyr ac aelodau eraill o'r gymuned fynychu dosbarthiadau Cymraeg a/neu gyfleoedd ar gyfer ymgysylltiad y gymuned trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ychwanegol, byddant yn cael eu hannog i gyfeirio rhieni / gofalwyr at ddosbarthiadau cyfrwng Cymraeg a gynigir gan Ganolfan Dysgu Gydol Oes Garth Olwg, ym Mhentre'r Eglwys. Bydd hyn yn cefnogi targed Llywodraeth Cymru i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050 a'r targedau a amlinellir yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg presennol (2017 i 2022) a	- Dosbarthiadau nos Cymraeg yn cael eu cynnal yn Ysgol Gymuned Tonyrefail. - Nifer y rhieni / gofalwyr ac aelodau eraill o'r gymuned sy'n mynychu dosbarthiadau cyfrwng Cymraeg a gynigir yng Nghanolfan Dysgu Gydol Oes Garth Olwg. (Yn ystod y cyfnod rhwng Hydref 2019 a Mawrth 2020, mynychodd 120 o ddysgwyr gyrsiau amrywiol trwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghanolfan Dysgu Gydol Oes Garth Olwg. Mynychodd 152 o ddysgwyr eraill 16 o gyrsiau Cymraeg i Oedolion yn y ganolfan	Hyrwyddo a chyfeirio at ddosbarthiadau cyfrwng Cymraeg gan y pennaeth. Hyrwyddo'r opsiynau sydd ar gael i ddysgwyr sy'n dymuno trosglwyddo o addysg cyfrwng Saesneg i addysg cyfrwng Cymraeg. Sefydlwyd 3 dosbarth trochi peilot ledled y fwrdeistref sirol yn 2022. Sicrhau bod ysgolion yn cael eu cefnogi'n lleol ac yn rhanbarthol, yn cynnwys gan Swyddog Cymraeg mewn Addysg Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De i rannu arfer gorau. Bydd y gweithlu yn yr ysgol yn cael ei

			newydd (2022 i 2032) y Cyngor. Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd trochi yn y Gymraeg ar gyfer dysgwyr sy'n dymuno trosglwyddo o addysg cyfrwng Saesneg i addysg cyfrwng Cymraeg, er mwyn annog mwy o ddysgwyr i gael addysg cyfrwng Cymraeg. Er nad oes gan y Cyngor unrhyw ddosbarthiadau trochi yn y Gymraeg mewn unrhyw un o'n hysgolion ar hyn o bryd, caiff ysgolion sydd angen cymorth trochi yn y Gymraeg ar gyfer eu dysgwyr eu hariannu i gefnogi caffael sgiliau Cymraeg yn gyflymach ar gyfer dysgwyr pan fydd yr angen yn codi. Mae'r galw am ddosbarthiadau trochi yn rhywbeth y bydd y Cyngor yn ei fonitro a bydd yn ei ystyried yn y dyfodol ochr yn ochr â datblygu ei Raglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21^{ain} Ganrif, Band B, ac mae wedi'i gynnwys yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Wrth gyfrannu tuag at y weledigaeth i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg yng	yn ystod yr un cyfnod. Er mis Medi 2021 ac o ganlyniad i'r pandemig, mae'r ddarpariaeth wedi addasu i gynnig darpariaeth ar-lein gan mwyaf. Er mis Medi 2020, mae 346 o unigolion wedi mynychu sgysiau hanes Cymru ar-lein; mae 1,600 o unigolion wedi ffrydio gigs Cymraeg yn fyw; ac mae 126 o unigolion wedi mynychu gweithdai ar-lein trwy gyfrwng y Gymraeg. Aeth 50 o unigolion i gig awyr agored Cymraeg hefyd, ac mae 36 o unigolion wedi cadw lle ar sesiwn gwneud torchau trwy gyfrwng y Gymraeg ym mis Rhagfyr 2021 O ran y dilyniant o Gylch Meithrin Ynys-y-bŵl i ysgol gynradd Gymraeg, dangoswyd yn 2019/20 bod 43.79% o blant a fynychai'r Cylch Meithrin yn mynd	gynorthwyo â dysgu proffesiynol parhaus, rhwydweithio a chyfleoedd i rannu arfer gorau. Hyrwyddo a chynyddu defnydd dysgwyr o'r Gymraeg mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, gyda'r holl ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Saesneg yn cael eu cefnogi i ennill Gwobr Efydd Cymraeg Campus.
--	--	--	--	---	---

			Nghymru erbyn 2050, ac yn unol â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg presennol y Fwrdeistref Sirol, ac er mwyn cyflawni targedau'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg newydd, mae'n hanfodol sicrhau gweithlu yn yr ysgol o faint a medrusrwydd digonol. Er mwyn creu mwy o siaradwyr Cymraeg, mae ein system addysg yn ddibynnol ar ei gweithlu yn yr ysgol, a rhaid i ni weithio'n lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol i sicrhau ein bod yn creu gweithlu yn yr ysgol sydd â sgiliau ieithyddol cadarn, yn gallu ysbrydoli a chymell dysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg Gymraeg. Yn y blynyddoedd diwethaf, rhoddwyd cymorth i hyrwyddo a chynyddu defnydd dysgwyr o'r Gymraeg mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, ac mewn cyd-destunau cymdeithasol. Gwnaed hyn trwy'r Siarter Iaith, a ddatblygwyd gan Gyngor Gwynedd, a phrosiectau amrywiol eraill, mewn partneriaeth â Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De a'r Urdd. Mae'r	ymlaen i fynychu ysgol gynradd Gymraeg.	
--	--	--	--	--	--

			rhain yn cynnwys, ond heb eu cyfyngu i'r canlynol: • Gweithredu'r Siarter Iaith ym mhob ysgol gynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg er mwyn datblygu defnydd dysgwyr o'r Gymraeg. • Gweithredu Cymraeg Campus mewn nifer o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg, a'i beilota mewn dwy ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg. • Cynorthwyo ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg i ddarparu cyfleoedd anffurfiol i ddefnyddio'r Gymraeg a chyfleoedd dysgu Cymraeg dwys trwy brosiect Cymraeg Bob Dydd yr Urdd. Y nod fu ymgorffori arferion ac agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg trwy gynllunio pwrpasol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd a hyrwyddo defnydd anffurfiol o'r Gymraeg ymhlith dysgwyr y tu mewn a'r tu allan i ysgolion cynradd ac uwchradd. Mae		
--	--	--	--	--	--

				hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, ar draws y cwricwlwm ac mewn cyd-destunau ehangach mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, i sicrhau continwwm dilyniant ieithyddol i gynorthwyo dysgwyr wrth iddynt drosglwyddo rhwng cyfnodau allweddol, yn cynnig cyfle i bob un o'r dysgwyr fod yn gwbl ddwyieithog, ac mae'n gydnaws â'r Cwricwlwm i Gymru – 2022. Mae'r sefyllfa bresennol (2019/2020) o ran dilyniant o Gylch Meithrin Ynys-y-bwl i ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn is nag yr hoffai'r Cyngor. Fodd bynnag, gallai'r cynigion ar wahân i ddarparu ysgol gynradd newydd cyfrwng Cymraeg ar safle presennol Ysgol Gynradd Heol y Celyn, i ddarparu ar gyfer disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton ar hyn o bryd, a'r disgyblion cyfrwng Cymraeg sy'n mynychu Ysgol Gynradd Heol y Celyn sydd â dwy iaith, olygu bod mwy o rieni yn dewis symud ymlaen i addysg cyfrwng Cymraeg mewn amgylchedd dysgu newydd sbon yr 21^{ain} Ganrif. Tra bydd yr ysgol		
--	--	--	--	---	--	--

				gynradd Gymraeg newydd yn fwy pell o Ysgol Gynradd Cefn ac Ysgol Gynradd Craig-yr-Hesg, bydd pob plentyn sydd ar hyn o bryd yn gymwys i gael cludiant o'r cartref i'r ysgol er mwyn manteisio ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton yn parhau i fod yn gymwys pan fydd yr ysgol newydd yn agor.		
Cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg	X			Os caiff ei weithredu, bydd y cynnig yn caniatáu ar gyfer ehangu defnydd y gymuned a defnydd trydydd partïon o gyfleusterau'r ysgol newydd, y gellir eu defnyddio i gynnal dosbarthiadau trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd yr ysgol yn cael ei dylunio i fod yn ysgol gymunedol gwbl hygyrch a chwbl integredig. Bydd ardal ddynodedig yn cael ei dylunio yn yr ysgol er mwyn galluogi'r gymuned leol i ddefnyddio'r cyfleusterau yn ddiogel. Bydd yr ysgol newydd yn cael ei lleoli mewn safle amlwg o fewn ardal breswyl, felly bydd yn hygyrch iawn i gymuned Glyn-coch a'r ardal gyfagos. Bydd yr holl arwyddion a	Gellid gweld o'r dystiolaeth uchod o'r galw am ddosbarthiadau trwy gyfrwng y Gymraeg ym mhoblogrwydd Canolfan Dysgu Gydol Oes Garth Olwg. Dylai cyfleoedd ychwanegol i fynychu dosbarthiadau / grwpiau cymunedol yn adeilad yr ysgol newydd wella hygyrchedd ymhellach, gan y bydd ystafelloedd cymunedol yn yr adeilad, a bydd yn cydymffurfio'n llawn â Deddf Cydraddoldeb 2010, a bydd cyfleoedd o'r fath yn ganolog i'r gymuned, gan felly	Anogaeth a chymorth i'r pennaeth i hyrwyddo defnydd cymunedol o'r cyfleusterau ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg / defnydd gan grwpiau cyfrwng Cymraeg a hyrwyddo cyfleoedd trwy offer marchnata sydd wrthi'n cael eu datblygu gan Grŵp Marchnata Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor ar hyn o bryd. Bydd y Cyngor yn

			gynhyrchir yn ddwyieithog ac yn glynu at y canllawiau diweddaraf sydd ar gael. Bydd y Cyngor yn parhau i lynu at Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011⁴ (Mesur 2011), sy'n gofyn i'r Cyngor greu strategaeth bum mlynedd i hwyluso a hyrwyddo'r Gymraeg. Cymeradwywyd y strategaeth bum mlynedd gyntaf, Strategaeth Hybu'r Gymraeg⁵ RhCT, yn 2016 ac amlinellodd nifer o feysydd polisi allweddol i gynnal a chynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn ystod ei chylch oes. Wrth ddatblygu'r cynnig hwn, ystyriwyd Strategaeth Hybu'r Gymraeg RhCT er mwyn annog a hwyluso twf hirdymor mewn addysg cyfrwng Cymraeg a Chymraeg. Mae'r Cyngor wedi parhau i sicrhau cydnawsedd clir â'r strategaeth, a bydd yn parhau i wneud hyn. Caiff yr ymrwymiad hwn i hyrwyddo'r Gymraeg, cynyddu nifer y dysgwyr Cymraeg a gwella sgiliau Cymraeg staff a disgyblion ar draws ysgolion yn RhCT ei ailddatgan yng Nghynllun Strategol Drafft y	hwyluso mynediad.	ymdrechu i sefydlu sesiynau Cymraeg i Oedolion yn yr ysgol newydd, yn ogystal â cheisio sefydlu cysylltiadau â'r Urdd a'r Fenter Iaith i gynorthwyo â hybu'r Gymraeg. Yn ychwanegol, bydd yr ysgol yn gweithio gyda Thîm Datblygu Chwaraeon y Cyngor a'r Urdd i sefydlu cysylltiadau â'r grwpiau a'r cymdeithasau chwaraeon cyfrwng Cymraeg fyddai efallai'n dymuno defnyddio'r cyfleusterau chwaraeon sydd ar gael.
--	--	--	--	-------------------	---

⁴ [Mesur y Gymraeg \(Cymru\) 2011 \(y Mesur 2011\)](#)

⁵ [Rhondda Cynon Taf – Strategaeth Hybu'r Gymraeg – 2016](#)

				Gyfarwyddiaeth Addysg a Chynhwysiant ar gyfer 2021-2024.		
Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg y Cyngor	X			Bydd yr holl brosesau sy'n gysylltiedig â'r adeilad newydd yn unol â Safonau'r Gymraeg y Cyngor. Pan fydd yn bosibl, bydd y Cyngor a Chonsortium Canolbarth y De yn cynorthwyo staff ysgol, gweithwyr cymorth dysgu ysgol a staff addysgu i gymryd rhan mewn cyrsiau sgiliau Cymraeg ar wahanol lefelau er mwyn diwallu anghenion a nodwyd.	Bydd yr holl drefniadau cytundebol yn sicrhau bod yr holl ymgynghoriadau yn cael eu cynnal yn ddwyieithog; bydd adeilad yr ysgol newydd yn ymgorffori arwyddion dwyieithog, ac ati. Nifer y staff cymorth ysgolion, gweithwyr cymorth dysgu ysgolion a staff addysgu sy'n cymryd rhan mewn cyrsiau sgiliau Cymraeg ar wahanol lefelau.	Meithrin ymwybyddiaeth contractwyr o Safonau'r Gymraeg, a sicrhau cydymffurfio. Annog cyfranogiad mewn cyrsiau sgiliau Cymraeg ar wahanol lefelau.
Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg	X			Er mai ysgol cyfrwng Saesneg fydd yr ysgol newydd arfaethedig, mae'n rhan o Raglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21 ^{ain} Ganrif, Band B, sy'n cael ei hariannu ar y cyd gan y Cyngor a Llywodraeth Cymru i sicrhau bod gweledigaeth y Cyngor am ysgolion da, fel bod yr holl blant a phobl ifanc, beth bynnag yw eu hangen dysgu, yn cael	Mae Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21^{ain} Ganrif - Band B – Amlinelliad Strategol yn cynnwys ystod eang o ysgolion (cyfrwng Cymraeg a Saesneg) mewn rhannau amrywiol o'r fwrdeistref sirol. Er enghraifft, mae cynnig i wella a	Hyrwyddo dosbarthiadau cyfrwng Cymraeg ar gyfer grwpiau cymunedol, ac ati, yn y cyfleusterau cwbl hygyrch. Hyrwyddo'r dewisiadau sydd ar gael i ddysgwyr sy'n

				mynediad teg at addysg dda trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, yn cael ei chyflawni.	chynyddu addysg gynradd cyfrwng Cymraeg yn yr ardal yn cael ei ddatblygu ar wahân. Os caiff y ddau gynnig eu cymeradwyo, bydd yr holl ddisgyblion cynradd o Lyn-coch yn cael eu haddysgu mewn amgylcheddau dysgu'r 21^{ain} Ganrif, p'un a ydynt yn dewis cael addysg cyfrwng Cymraeg neu Saesneg.	dymuno trosglwyddo o addysg cyfrwng Saesneg i addysg cyfrwng Cymraeg.
--	--	--	--	---	---	--

Cam 3 – Cryfhau'r cynnig / prosiect

Ar ôl rhestru'r camau gweithredu yn adran 2 a allai liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol – cofnodwch isod pa rai y byddwch yn eu hymgorffori yng nghynnig y polisi, a phwy fydd yn gyfrifol amdanynt.

Hefyd, ystyriwch a yw'r cynnig yn angenrheidiol? A fyddai'n bosibl bodloni'r galw heb unrhyw ddatblygiadau newydd? A ellid defnyddio darpariaeth arall sy'n bodoli eisoes? Ble dylai'r datblygiad fod?

Beth ydych chi'n mynd i'w wneud?	Pryd ydych chi'n mynd i'w wneud?	Pwy sy'n gyfrifol?
Sicrhau bod y llyfrynnau 'Dechrau'r Ysgol' a 'Bod yn Ddwyieithog' yn cael eu rhoi i'r holl ddarpar rieni i hyrwyddo'r profiadau cadarnhaol y gellir eu cyflawni trwy geisio cael addysg trwy gyfrwng y Gymraeg.	Parhaus. Bydd hyn yn ymdrech parhaus ar y cyd rhwng yr holl randdeiliaid.	RhCT / Ysgolion / Partneriaid
Monitro'r galw i asesu'r angen am ddosbarth trochi yn ardal Taf yn y fwrdeistref sirol.	Bydd hyn yn ffurfio un o gamau gweithredu'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-32 a bydd yn gam gweithredu parhaus ar gyfer swyddogion.	RhCT
Cysylltu â'r Pennaeth i hyrwyddo argaeledd y dosbarthiadau Cymraeg ymhlith eu rhieni / gofalmwyr / y gymuned ehangach.	Parhaus. Bydd hyn yn ymdrech parhaus ar y cyd rhwng y Cyngor a'r ysgol newydd.	RhCT / Ysgol

Cam 4 – Adolygiad

Fel rhan o Broses Asesu'r Effaith ar y Gymraeg, Cydraddoldeb a'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol, dylid cyflwyno pob cynnig sy'n dod o fewn y diffiniad o Benderfyniad Allweddol Arwyddocaol gerbron y Panel Adolygu gan Swyddogion. Mae'r panel hwn yn cynnwys swyddogion ar draws Gwasanaethau'r Cyngor ac mae'n gweithredu fel ffrind beirniadol cyn cwblhau eich adroddiad a'i gyhoeddi i'w gymeradwyo gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth / Cabinet.

Os yw'r cynnig hwn yn Benderfyniad Strategol Allweddol, anfonwch eich asesiad effaith i CouncilBusiness@rctcbc.gov.uk er mwyn trefnu Panel Adolygu sy'n cynnwys Swyddogion i drafod eich cynnig. [Gweler ein dogfen ganllawiau](#) i gael mwy o wybodaeth am beth yw Penderfyniad Allweddol Arwyddocaol.

Ar gyfer yr holl gynigion polisi, p'un a yw'n Benderfyniad Allweddol Arwyddocaol ai peidio, mae gofyn i chi anfon yr asesiad hwn i wasanaethau Cymraeg yn y lle cyntaf i gael rhywfaint o arweiniad ac adborth cychwynnol.

Mae'n bwysig cadw cofnod o'r broses hon er mwyn i ni allu dangos sut rydym wedi ystyried a chynnwys ystyriaethau cynaliadwy o ran y Gymraeg, ble bynnag y bo modd. Sicrhewch eich bod yn diweddarau'r adrannau perthnasol isod.

Sylwadau gan y Gwasanaethau Cymraeg	Dyddiad Ystyried	Disgrifiad bras o unrhyw ddiwygiadau a wnaed ar ôl adborth gan y Gwasanaethau Cymraeg
Sylwadau gan y Panel Adolygu sy'n cynnwys Swyddogion	Dyddiad Ystyried	Disgrifiad bras o unrhyw ddiwygiadau a wnaed ar ôl ystyriaethau gan y Panel Adolygu gan Swyddogion

Sylwadau'r Ymgynghoriad	Dyddiad Ystyried	Disgrifiad bras o unrhyw ddiwygiadau a wnaed ar ôl ymgynghori
<u>Cam 5 – Monitro, Gwerthuso ac Adolygu</u>		
Os bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen, bydd y prosiect yn cael ei fonitro, ei werthuso a'i adolygu gan swyddogion o fewn y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant a'r Adran Ystadau Corfforaethol yn rheolaidd trwy gydol y cyfnod dylunio, adeiladu a'r cyfnod gweithredol.		

<u>Cam 6 – Crynodeb o Effeithiau ar gyfer y Cynnig</u>
<i>Cwblhawyd Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg, ac mae'r prif ganfyddiadau fel a ganlyn -</i> Nod y cynnig yw uno Ysgol Gynradd Cefn ac Ysgol Gynradd Craig yr Hesg ac adeiladu ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Saesneg newydd ar safle presennol Ysgol Gynradd Craig yr Hesg a thir cyfagos (hen safle Uned Cyfeirio Disgyblion Tŷ Gwyn). Er y bydd yr ysgol newydd yn un cyfrwng Saesneg, caiff y Gymraeg ei haddysgu fel rhan o'r cwricwlwm, a bydd pob un o'r disgyblion yn elwa ar gyfle i gael eu haddysgu mewn cyfleusterau newydd sbon yn addas ar gyfer yr 21^{ain} Ganrif. At hynny, mae cynigion ar wahân yn cael eu datblygu i ddarparu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd ar safle presennol Ysgol Gynradd Heol y Celyn, i dderbyn disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton ar hyn o bryd a'r disgyblion cyfrwng Cymraeg sy'n mynychu Ysgol Gynradd Heol y Celyn sydd â dwy iaith. Ar yr amod fod y ddau gynnig yn llwyddiannus, bydd disgyblion cynradd o Lyn-coch yn cael mynediad at amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf yr 21^{ain} Ganrif, p'un a ydynt yn dewis addysg cyfrwng Cymraeg neu gyfrwng Saesneg. Dylai hyn liniaru'r risg y gallai agor ysgol gynradd cyfrwng Saesneg newydd sbon yng Nglyn-coch

achosi i rieni a fyddai wedi dewis addysg cyfrwng Cymraeg o'r blaen ddewis addysg cyfrwng Saesneg yn lle, o ganlyniad i'r cyfleusterau gwell.

Nod y Cyngor yw ymgorffori arferion ac agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg trwy gynllunio pwrpasol o fewn ysgolion, a hyrwyddo defnydd anffurfiol o'r Gymraeg ymhlith dysgwyr y tu mewn a'r tu allan i'r ysgol. Mae hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, ar draws y cwricwlwm ac mewn cyd-destunau ehangach mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, i sicrhau continwwm dilyniant ieithyddol i gynorthwyo dysgwyr wrth iddynt drosglwyddo rhwng cyfnodau allweddol, yn cynnig cyfle i bob un o'r dysgwyr fod yn gwbl ddwyieithog, ac mae'n gydnaws â'r Cwricwlwm i Gymru – 2022.

Os caiff ei weithredu, bydd y cynnig hefyd yn caniatáu ar gyfer ehangu defnydd y gymuned a thrydydd partion o gyfleusterau'r ysgol y gellir eu defnyddio i gynnal dosbarthiadau trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd yr ysgol yn cael ei dylunio i fod yn ysgol gymunedol gwbl hygyrch a chwbl integredig. Bydd ardal ddynodedig yn cael ei dylunio o fewn yr ysgol er mwyn caniatáu i'r gymuned leol ddefnyddio'r cyfleusterau yn yr ysgol yn ddiogel, a allai gynnwys grwpiau Cymraeg yn defnyddio cyfleusterau'r 21^{ain} ar gyfer cyfarfodydd / dosbarthiadau, ac ati. Bydd y pennaeth yn cael ei annog a'i gynorthwyo'n llawn i ddefnyddio'r cyfleusterau hyn i gynyddu cyfranogiad yn y Gymraeg trwy gynnig cyfle i rieni / gofalwyr ac aelodau eraill o'r gymuned fynychu dosbarthiadau Cymraeg a/neu gyfleoedd eraill ar gyfer ymgysylltiad y gymuned trwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn gryno, bydd y cynnig felly'n cynorthwyo â chyflawni'r targedau a amlinellir yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg presennol (2017 i 2022) a newydd (2022 i 2032) Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (CBSRhCT), a bydd yn cefnogi nod Cymraeg 2050, sef targed i gael miliwn o siarad Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050.

Cam 7 – Cymeradwyo			
Enw'r Swyddog sy'n cwblhau'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg	Nicola Goodman	Enw'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau:	Andrea Richards, Cyfarwyddwr Gwasanaethau ar gyfer Ysgolion yr 21 ^{ain} Ganrif a Thrawsnewid
Swydd	Arweinydd ar gyfer Cynllunio Strategol a'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol	Rwy'n argymhell y canlynol o ran y cynnig: (Amlygwch y penderfyniad)	Dylid ei weithredu heb unrhyw ddiwygiadau X
			Dylid ei weithredu gan ystyried y camau gweithredu lliniarol a amlinellir
			Dylid ei wrthod o ganlyniad i effeithiau negyddol anghymesur ar y Gymraeg